



Adam Price MS – Costau Tai Cysylltiedig

29 Mawrth 2022

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 8 Mawrth, pan wnaethoch ofyn:

More specifically I am looking for housing associated costs for primary and second home. (Adam Price)

I don't seem to see anything for Primary and 0 results for 2nd home.

Of course as I believe he lives in Carmarthenshire he may not have a second home in Cardiff?

Mae'r rheolau ynghylch yr hyn y mae gan Aelodau o'r Senedd (AS) yr hawl i'w hawlio wedi'u cynnwys yn nogfen y **Penderfyniad** (yn benodol Pennod 4. *Gwariant ar lety preswyl*).

I ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar ein **system lwfansau**, dilynwch y cyfarwyddiadau hyn:

- i. Dewiswch y blynyddoedd ariannol yr hoffech chwilio amdanynt.
- ii. I ddewis Aelod penodol o'r Senedd, cliciwch ar 'DEWIS AELOD' i weld rhestr o Aelodau blaenorol a phresennol, a dewiswch yr Aelod(au) penodol. Os ydych chi am chwilio'r system am yr holl Aelodau, gadewch hwn yn wag.
- iii. I ddewis y math penodol o draul, o dan 'DEWIS MATH O LWFANS', dewiswch 'Teithio Rhyngwladol'.
- iv. Dewiswch 'Chwilio'

Cyhoeddir yr holl hawliadau ar ein system lwfansau dri mis yn ddiweddarach a bydd yn dangos yn y flwyddyn ariannol y mae'r gost yn gysylltiedig â hi. Os na allwch ddilyn y cyfarwyddiadau hyn, rhowch wybod i mi.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN

Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Sylwch - os nad yw'r system yn dangos unrhyw ganlyniadau, yna ni chafodd unrhyw dreuliau eu hawlio o dan y traul penodol hwnnw.

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd ar gael yn rhesymol drwy ddulliau eraill.

Nid yw cyfeiriadau preswyl Aelodau o'r Senedd yn dod o fewn cylch gorchwyl y wybodaeth a gwmpesir gan y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus a restrir yn Atodlen 1 iddi. Mae paragraff 5 o Atodlen 1 yn nodi bod y Senedd wedi'i chwmpasu 'mewn perthynas â gwybodaeth ac eithrio... gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw gyfeiriad preswyl' ei Haelodau.

Felly mewn perthynas â'ch cwestiwn ynghylch a oes gan Adam Price AS ail gartref yng Nghaerdydd, mae hyn y tu allan i gylch gorchwyl y ddeddfwriaeth.

Yn gywir

Buddug Saer
Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnlol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnlol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN